Taflen Ffeithiau
CAFCASS CYMRU

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r daflen ffeithiau hon yn cynnwys cwynion ynghylch Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd yng Nghymru (CAFCASS CYMRU). Dylid darllen y daflen ffeithiau gyda'r daflen wybodaeth gyffredinol am ein gwasanaeth.

Mae CAFCASS CYMRU yn adran yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac yn gweithio gyda phlant a theuluoedd sy'n gysylltiedig ag achosion llys teulu. Mae'n annibynnol ar y llysoedd, y gwasanaethau cymdeithasol, yr awdurdodau addysg ac iechyd ac asiantaethau tebyg. Mae'n hyrwyddo budd plant sy'n gysylltiedig ag achosion teulu, gan gynghori'r llysoedd teulu ynghylch yr hyn y mae'n ei ystyried sydd o'r budd mwyaf i'r plant dan sylw.
Ei rôl yw:

- diogelu a hyrwyddo lles plant;
- cynghori'r llysoedd teulu;
- darparu fel bo'r plant yn cael eu cynrychioli;
- darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i blant a'u teuluoedd.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Os nad ydych chi'n fodlon â'r ffordd weinyddol y mae CAFCASS CYMRU yn delio â'ch cwyn, gallwch gwyno wrth yr Ombwdsmon am y broses honno.

Gall:

- ystyried cwyn am sut mae CAFCASS CYMRU wedi delio â'i drefn gwyno, neu unrhyw gam ohoni.

Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni chaiff:

- ystyried unrhyw faterion gohirio, disgyblu neu unrhyw faterion personél ynghylch aelodau o staff CAFCASS CYMRU;
- cymryd unrhyw gamau yng nghyswllt cychwyn neu gynnal achos cyfreithiol gerbron llys barn. Os ydych chi'n anfodlon â phenderfyniad y Llys, yna efallai y byddwch yn awyddus i ystyried cymryd cyngor cyfreithiol;
- cymryd camau yng nghyswllt unrhyw adroddiad a gaiff ei baratoi at ddibenion achos llys.

Materion i gadw mewn cof

- Os ydych chi'n anhapus â chynnwys adroddiad CAFCASS CYMRU sydd wedi'i baratoi at ddibenion achos llys, yna dylech fanteisio ar y cyfle i fynegi ac egluro unrhyw bryderon ynghylch yr adroddiad yn yr achos Llys.

- Nid oes angen i chi ddefnyddio twrnai nac unrhyw adfocad arall i gyflwyno'ch cwyn i'r Ombwdsmon; mae ei wasanaeth yn ddiduedd ac am ddim a'n nod yw gwneud y broses mor hawdd â phosibl i'r achwynwyr ei dilyn.

Gwybodaeth bellach

Efallai yr hoffech chi ystyried cysylltu â'r sefydliadau canlynol i gael cyngor:

- CAFCASS CYMRU - http://wales.gov.uk/cafcasscymru/home/?lang=cy;

- Comisiynydd Plant Cymru, a allai weithredu fel adfocad ar ran plentyn - http://www.complantcymru.org.uk/cy/;

- Mae Meic yn wasanaeth llinell gymorth sy'n rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru - http://www.meiccymru.org .

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ac yn ddiduedd; ni chaiff orfodi cyrff cyhoeddus i wneud yr hyn y mae'n ei argymell - ond, yn ymarferol, maent yn gwneud hynny'n ddi-ffael bron.

Gellir gweld enghreifftiau o achosion y mae'r Ombwdsmon wedi eu hystyried ar ein gwefan. Ewch i http://www.ombwdsmon-cymru.org.uk .

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ